





# Strategaeth Hygyrchedd

# Y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant

## 2023 – 2026

CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH
MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB

EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION
AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

RHONDDA CYNON TAF

## Rhagair

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwerthfawrogi pob disgybl yn gydradd â'i gilydd, ac mae'n ceisio sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer diwallu'r anghenion amrywiol sydd gan ei holl blant a phobl ifainc.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i fodloni gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010, fel sydd wedi'u nodi yn ei bolisi addysg a'i bolisi corfforaethol.

Bydd y strategaeth hygyrchedd yma, ynghyd â'r canllawiau dilynol, yn helpu ysgolion a'r Cyngor i gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol ac i wella arferion cynhwysol.

## ADRAN 1: Y Strategaeth a'r Cyd-destun

## Cyflwyniad

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn gwerthfawrogi pob disgybl yn gydradd â'i gilydd, ac mae'n ceisio sicrhau darpariaeth briodol ar gyfer diwallu'r anghenion amrywiol sydd gan ei blant a'i bobl ifainc i gyd.

Mae'r egwyddorion cyfle cyfartal yn berthnasol i bopeth mae'r Cyngor yn ei wneud – gan gynnwys materion recriwtio a phenodi, a materion darparu gwasanaethau. Mae'r Cyngor, felly, yn hyrwyddo'r arferion gorau ac mae ganddo bolisïau penodol sy'n berthnasol i'r holl wasanaethau. Amcan y Cyngor yw sicrhau cydraddoldeb i bawb, heb wahaniaethu ar sail oedran, anabledd, tarddiad ethnig, rhywedd, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, crefydd neu gred, ailbennu rhywedd neu gyfeiriadedd rhywiol.

Bydd cyfle cyfartal, gan gynnwys mynediad a chynhwysiant i bawb, yn parhau i ategu gwaith y Cyngor o ran datblygu polisi a darparu gwasanaethau.

## Gweledigaeth

Ein gweledigaeth yw bod holl blant a phobl ifainc Rhondda Cynon Taf, waeth beth fo'u hanabledd, yn cael mynediad at addysg gynhwysol sy'n eu galluogi i gyflawni'r deilliannau gorau posibl y gallan nhw eu cyflawni, i wireddu eu dyheadau ac i gymryd rhan yn lawn yn ein cymdeithas ehangach fel dinasyddion cyfartal.

## Dyletswyddau

Yn unol â Deddf Cydraddoldeb 2010, rhaid i Gyngor Rhondda Cynon Taf gyfeirio at Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus y mae'r ddeddfwriaeth yma'n ei gosod ar gyrff cyhoeddus.

Yn ôl Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae angen i bob awdurdod cyhoeddus roi sylw i'r angen i:

- Ddileu gwahaniaethu ac ymddygiadau eraill sydd wedi'u gwahardd gan y Ddeddf;
- Hybu cyfle cyfartal;
- Meithrin perthynas dda.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gwella'r amddiffyniad yn erbyn gwahaniaethu, erledigaeth ac aflonyddu a oedd ar waith o dan ddeddfwriaeth flaenorol gan sicrhau bod nodweddion gwarchodedig yn cael eu hamddiffyn yn yr un modd ag eraill.

Mae Atodlen 10 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol/cyrff sy'n gyfrifol am ysgolion/lleoliadau addysgol i beidio â thrin disgyblion ag

anabledd yn llai ffafriol nag eraill, ac i gymryd camau rhesymol i osgoi rhoi disgyblion ag anabledd o dan anfantais sylweddol o'i gymharu â disgyblion heb anabledd.

Wrth gyflawni'r dyletswyddau yma, mae'n ddyletswydd ar Awdurdodau Lleol ac ysgolion/lleoliadau addysgol i baratoi Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd, yn y drefn honno.

Mae'r **Cod ADY (Cymru) 2021** yn hyrwyddo addysg gynhwysol ac mae'n cyfeirio at y ffordd y mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ategu'r Cod.

Mae'r Cod hefyd yn cyfeirio at y dyletswyddau ar awdurdodau lleol i roi sylw i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a sut mae'r Model Cymdeithasol o Anabledd, model sy'n canolbwyntio ar ddileu rhwystrau i gydraddoldeb, yn cefnogi awdurdodau lleol i gyflawni eu dyletswyddau.

Mae modd dod o hyd i ragor o wybodaeth ar y cyd-destun deddfwriaethol yn Atodiad 1 y Strategaeth.

## Cyfeiriad Strategol

Dylid defnyddio'r Strategaeth Hygyrchedd yma law yn llaw â Chynllun Corfforaethol 'Gwneud Gwahaniaeth' Cyngor Rhondda Cynon Taf 2020-2024. Mae hefyd yn cefnogi cenhadaeth Cynllun Strategol y Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant 2021-2024 **'Cyflawni tegwch a rhagoriaeth mewn addysg a lles gwell i bawb'** a phum blaenoriaeth strategol y cynllun:

- Datblygu gweithlu addysgol sy'n hynod fedrus, ac arweinwyr sy'n rhagorol ar bob lefel.
- Rhoi cymorth i ysgolion ddarparu cwricwlwm trawsnewidiol, darpariaeth ddysgu ac addysgu o safon uchel a deilliannau gwell i bawb.
- Sicrhau tegwch a chymorth i ddisgyblion sy'n agored i niwed a'u teuluoedd.
- Gwella lles ein disgyblion a'r gweithlu.
- Cyflwyno amgylcheddau dysgu a gwasanaethau arloesol sy'n addas ar gyfer yr 21ain ganrif ar gyfer ein disgyblion a'n cymunedau.

Caiff y Strategaeth ei hategu gan y pedwar gwerth craidd yn unol â Chynllun Strategol y Gyfarwyddiaeth:

- Cydweithio
- Dyhead
- Cynhwysiant
- Arloesedd

## Nodau allweddol y Strategaeth Hygyrchedd

Mae'r Strategaeth Hygyrchedd yn nodi amcanion yr awdurdod lleol i gynyddu mynediad plant a phobl ifainc ag anableddau at addysg yn y lleoliadau addysgol y mae'n gyfrifol amdanyn nhw.

**Diffiniad o Anabledd**
O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae person yn anabl os oes ganddo *nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith sylweddol a hir dymor ar ei allu i gyflawni tasgau arferol o ddydd i ddydd.*

Mae *'sylweddol'* yn golygu ‘mwy na rhywbeth mân neu ddibwys’. Mae modd pennu effeithiau andwyol sylweddol drwy edrych ar yr effeithiau ar berson â’r nam, gan gymharu’r rheini â pherson heb y nam, i farnu a yw’r gwahaniaeth rhwng y ddau yn fwy na ‘mân neu ddibwys’. Mae canllawiau o’r ‘Swyddfa Materion Anabledd’ yn dangos y ffactorau y mae modd yn rhesymol eu hystyried yn rhai sy’n cael effaith andwyol sylweddol ar weithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Mae *'hir dymor'* yn golygu nam sydd wedi bodoli am o leiaf 12 mis neu sy'n debygol o bara 12 mis.

Mae modd diffinio *‘tasgau arferol o ddydd i ddydd’* drwy gyfeirio at y rhestr enghreifftiol, anghyflawn o ffactorau ar dudalennau 47 i 51 o’r canllawiau statudol sy’n ymwneud â Deddf Cydraddoldeb 2010. (Mae tasgau sy'n gysylltiedig ag astudio ac addysg yn cael eu cynnwys yn y diffiniad o weithgareddau 'dydd i ddydd').

Mae'r diffiniad eang yma'n cynnwys anableddau corfforol, namau synhwyraidd (megis y rheiny sy'n effeithio ar olwg neu glyw), anableddau dysgu a rhai cyflyrau meddygol penodol.

Mae Cod ADY (Cymru) 2021 yn nodi diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol:

(1) Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anabledd neu anhawster dysgu yn deillio o gyflwr meddygol neu fel arall) sy'n gofyn am ddarpariaeth dysgu ychwanegol.

(2) Mae gan blentyn o oedran ysgol gorfodol neu berson sy'n hŷn na'r oedran yna anhawster dysgu neu anabledd os yw un o’r canlynol yn berthnasol-

(a) anhawster dysgu sy'n sylweddol fwy na'r anhawster y mae'r rhan fwyaf o blant o'r un oedran yn ei brofi, neu

(b) anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy’n ei atal neu’n ei rwystro rhag defnyddio cyfleusterau ar gyfer addysg neu hyfforddiant sy’n cael eu darparu’n gyffredinol ar gyfer pobl eraill o’r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

(3) Mae gan blentyn sy'n iau na'r oedran ysgol gorfodol anhawster dysgu neu anabledd os yw isadran (2) yn debygol o fod yn berthnasol pan fydd o oedran ysgol gorfodol, neu y byddai pe na bai darpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei darparu.

(4) Does dim anhawster dysgu nac anabledd gyda pherson dim ond oherwydd bod yr iaith (neu ffurf yr iaith) y mae’n cael ei addysgu ynddi neu y bydd yn cael ei haddysgu ynddi yn wahanol i iaith (neu ffurf yr iaith) sy’n cael ei defnyddio gartref.

Does gan blant na phobl ifainc ag anabledd corfforol neu feddygol ddim angen dysgu ychwanegol (ADY) o reidrwydd, ond mae gorgyffwrdd sylweddol rhwng plant a phobl ifainc ag anabledd a'r rhai sydd ag ADY.

Bydd Strategaeth Hygyrchedd Rhondda Cynon Taf yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau allweddol canlynol:

1. Sicrhau cydymffurfiaeth yr Awdurdod Lleol a'r holl leoliadau addysg y mae'n gyfrifol amdanyn nhw gyda gofynion Atodlen 10 Deddf Cydraddoldeb 2010.
2. Cynyddu cynhwysiant ac ethos cynhwysol i'r eithaf ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc mewn lleoliad addysgol.
3. Cynyddu'r graddau y mae modd i blant a phobl ifainc ag anabledd gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys y cwricwlwm cyfoethogi ehangach (e.e. gweithgareddau ar ôl ysgol, ymweliadau ysgol, achlysuron chwaraeon / hamdden).
4. Gwella amgylchedd lleoliadau addysgol i gynyddu'r graddau y mae modd i blant a phobl ifainc ag anabledd fanteisio’n llawn ar wasanaethau a chyfleusterau a gaiff eu darparu gan y lleoliad.
5. Gwella’r modd y mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn cael eu rhoi i bob plentyn a pherson ifanc ag anabledd a’u teuluoedd.

Bydd y blaenoriaethau uchod yn cael eu darparu trwy gyfuniad o gamau gweithredu, cynlluniau gwasanaeth unigol, gan gysylltu Cynllun Strategol y garfan Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant a Chynllun Corfforaethol y Cyngor.

Mae amrywiaeth o ganllawiau, cymorth a dysgu proffesiynol ynghylch arfer cynhwysol ar gael drwy'r Gyfarwyddiaeth Addysg er mwyn meithrin gallu lleoliadau addysgol i fagu arfer cyson a chynhwysol ym mhob lleoliad addysgol yn Rhondda Cynon Taf, er enghraifft, canllawiau Ymateb Graddedig Mynediad a Chynhwysiant a'r Cynnig Dysgu Proffesiynol Mynediad a Chynhwysiant. Mae modd darparu cyngor / hyfforddiant pwrpasol ar gais.

## Blaenoriaeth 1: Sicrhau cydymffurfiaeth yr Awdurdod Lleol a’r holl leoliadau addysgol y mae’n gyfrifol amdanyn nhw yn unol â gofynion Atodlen 10 Deddf Cydraddoldeb 2010.

Dylai pawb sy’n gweithio ym mhob lleoliad addysgol neu ochr yn ochr â’r lleoliadau fod yn effro i'r Ddeddf Cydraddoldeb a’i goblygiadau i blant a phobl ifainc, eu teuluoedd a’r gymuned ehangach, ac yn effro i’w dyletswyddau yn unol â’r Ddeddf.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud y canlynol:

- Darparu a chyfeirio hyfforddiant ar y Ddeddf Cydraddoldeb, amrywiaeth ac anabledd ar gyfer lleoliadau addysgol.
- Sicrhau bod lleoliadau addysgol yn cwblhau'r Pecyn Archwilio Hygyrchedd i'w cefnogi i asesu eu cydymffurfiaeth â'r ddeddfwriaeth berthnasol.
- Cynnal archwiliadau o gynlluniau hygyrchedd ysgolion yn rhan o gylch archwilio'r Cyngor i sicrhau cydymffurfiaeth â deddfwriaeth berthnasol.

Bydd yr ysgolion yn:

- Sicrhau bod yr holl staff yn deall beth yw eu cyfrifoldebau mewn perthynas â Deddf Cydraddoldeb 2010 a deddfau cysylltiedig eraill – megis Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chod ADY 2021.
- Ysgrifennu Cynllun Hygyrchedd ar y cyd â rhanddeiliaid a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol mewn sawl fformat hygyrch.
- Sicrhau bod cynnydd yn erbyn y Cynllun Hygyrchedd yn cael ei adolygu gan y Corff Llywodraethu bob blwyddyn.

## Blaenoriaeth 2: Cynyddu cynhwysiant ac ethos cynhwysol i'r eithaf ar gyfer yr holl blant a phobl ifanc mewn lleoliad addysgol

Mae'r awdurdod lleol wedi'i ymrwymo i sicrhau bod pob lleoliad addysgol yn hyrwyddo cynhwysiant ac ethos cynhwysol cadarnhaol fel bod bob plentyn a pherson ifanc ag anabledd, a'u teuluoedd, â'r un cyfleoedd ac yn teimlo bod modd iddyn nhw wneud cyfraniad gwerthfawr i'w cymuned addysgol a thu hwnt.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud y canlynol:

- Sicrhau bod lleoliadau addysgol yn cwblhau'r Pecyn Archwilio Hygyrchedd i'w cefnogi nhw i asesu eu cynhwysiant.
- Darparu cyngor, cymorth a hyfforddiant ar arferion cynhwysol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau arbenigol sydd ar gael drwy'r Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad.
- Gwrando ar farn plant a phobl ifainc ag anabledd a'u rheini/gwarcheidwaid ynghylch cynhwysiant.
- Gwrando ar farn ymarferwyr ynghylch arfer dda a rhwystrau i arfer cynhwysol sydd wedi'u nodi.
- Cynnal adolygiad o'r defnydd o Gyllid Capasiti Ychwanegol i wella arfer cynhwysol.
- Adolygu data awdurdod lleol perthnasol – e.e. data gwaharddiadau, ffurflenni bwlio, data addysg ddewisol yn y cartref – er mwyn nodi a mynd i'r afael ag unrhyw themâu posibl yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd.

Bydd yr ysgolion yn:

- Sicrhau bod bob plentyn a pherson ifanc ag anabledd â llais ac yn cael eu cynnwys mewn fforymau disgyblion.
- Trefnu cymorth personol a chreadigol fel bod modd i bob plentyn a pherson ifanc gael mynediad at yr holl weithgareddau - e.e. ymweliadau a chlybiau ysgol.
- Defnyddio eu cyllideb yn effeithiol, gan gynnwys Cyllid Capasiti Ychwanegol, i sicrhau bod modd i'r holl blant a phobl ifainc gael eu cynnwys ym mhob gweithgaredd / achlysur.
- Ceisio adborth gan rieni / gwarcheidwaid ar eu barn am arfer cynhwysol yn y lleoliad.
- Sicrhau bod prosesau clir ar waith i ymdrin yn effeithiol ag achosion o wahaniaethu a bwlio a'u goresgyn.
- Sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i gefnogi'r broses pontio o leoliad i leoliad ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledd.

## Blaenoriaeth 3: Cynyddu'r graddau y mae modd i blant a phobl ifainc ag anabledd gymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol, gan gynnwys y cwricwlwm cyfoethogi ehangach

Mae sicrhau bod modd i blant a phobl ifainc ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau (AAAA) gael mynediad at y cwricwlwm yn elfen hanfodol o ddarpariaeth o ansawdd uchel. Mae'n eu galluogi nhw i wneud cynnydd da a chyflawni deilliannau sy'n eu paratoi nhw'n dda ar gyfer bod yn oedolion. Mae'r cwricwlwm yn cwmpasu nid yn unig yr holl addysgu a dysgu yn yr ystafell ddosbarth ond agweddau ehangach, megis cymryd rhan mewn gweithgareddau ar ôl ysgol a gweithgareddau ysgol estynedig neu deithiau ac ymweliadau. Mae hefyd yn cynnwys profion ffurfiol ac anffurfiol, asesiadau ac arholiadau. Mae ysgolion a lleoliadau addysgol yn gyfrifol am ddarparu cwricwlwm eang, cytbwys a chynhwysol i bob plentyn a pherson ifanc.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud y canlynol:

- Darparu mynediad at gymorth a chyngor i Gydlynwyr ADY i wella dulliau gweithredu cynhwysol a rhannu arfer da a meithrin gallu'r holl staff i gefnogi plant a phobl ifainc ag anableddau.
- Darparu cyngor, arweiniad, adnoddau a dysgu proffesiynol mewn perthynas ag arfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a chynlluniau datblygu unigol.
- Darparu cyngor, cymorth ac ymgynghoriad ynghylch yr ymateb i ADY trwy'r Garfan Cymorth Dysgu a'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg.
- Darparu cyngor, cefnogaeth ac ymgynghoriad ynghylch cefnogi anghenion disgyblion ag angen corfforol / meddygol / synhwyraidd trwy'r Gwasanaeth Cynnal Dysgu.
- Gweithredu prosesau Sicrhau Ansawdd mewn perthynas ag ymarfer sy'n canolbwyntio ar y person, mapio darpariaeth a Chynlluniau Datblygu Unigol i sicrhau darpariaeth o ansawdd uchel i blant a phobl ifanc ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

- Adolygu defnydd o Gyllid Capasiti Ychwanegol wedi'i ddyrannu i ysgolion er mwyn darparu cymorth gwell i ddysgwyr ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ac/neu anableddau o ran mynediad at y cwricwlwm.
- Darparu cefnogaeth dechnolegol i alluogi mynediad at y cwricwlwm lle mae'r gost yn fwy na £500.
- O ran plant ag anghenion mynediad sy'n hysbys i'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant ac sy'n trosglwyddo i ysgol arall, sicrhau bod swyddogion y Cyngor yn dechrau cefnogi'r ysgol yn ystod tymor y gwanwyn er mwyn paratoi ar gyfer eu derbyn. Bydd dull tebyg yn cael ei fabwysiadu i ddarparu ar gyfer disgyblion sy'n dechrau yn yr ysgol am y tro cyntaf.
- Cynnig darpariaeth arbenigol ar gyfer pobl ifainc sy'n methu diwallu eu hanghenion cymhleth mewn darpariaeth brif ffrwd.

Bydd yr ysgolion yn:

- Darparu cwricwlwm eang cytbwys i'r holl ddisgyblion, gan sicrhau ei fod yn cael ei wahaniaethu'n briodol i sicrhau bod modd i'r holl blant a phobl ifainc ag ADY ac/neu anableddau gymryd rhan lawn mewn gweithgareddau dysgu, a hynny mewn modd effeithiol ochr yn ochr â'u cyd-ddisgyblion.
- Nodi pobl ifainc sy'n wynebu rhwystrau i ddysgu ac ymateb i ofynion dysgwyr unigol o ran mynediad at y cwricwlwm er mwyn cael gwared ar y rhwystrau yma trwy gynllunio'n addas.
- Sicrhau bod yr ysgol yn mabwysiadu ymagwedd sy’n canolbwyntio ar yr unigolyn i addasu’r cwricwlwm ar gyfer plant a phobl ifanc ag anabledd, gan sicrhau bod gan blant a phobl ifainc lais, a’u cynnwys nhw a’u rhieni / gwarcheidwaid wrth adolygu Cynlluniau Dysgu Unigol a chynlluniau hygyrchedd eraill yn ymwneud â chyrchu’r cwricwlwm.
- Sicrhau mapio darpariaeth effeithiol ar gyfer yr holl bobl ifainc ag ADY, sy'n cynnwys amrywiaeth o strategaethau, ymyraethau a dulliau sy'n addas i amrywiaeth o ddulliau dysgu i sicrhau eu bod nhw'n ymateb i ystod amrywiol o anghenion unigol o fewn cymuned yr ysgol.
- Gweithredu rhaglen datblygiad proffesiynol wedi’i chynllunio i sicrhau bod staff yn cael eu hyfforddi mewn amrywiaeth o strategaethau, ymyraethau a dulliau gweithredu sy’n eu galluogi i gynllunio/gweithredu darpariaeth ddysgu ychwanegol briodol (DDdY) ar gyfer plant a phobl ifainc ag ADY ac/neu anabledd.
- Sicrhau bod staff yn effro i anghenion pobl ifainc ag ADY/anabledd trwy broffil un dudalen neu ‘Amdana i’.
- Defnyddio ystod o adnoddau a chymhorthion ategol i sicrhau bod modd i blant a phobl ifainc gael eu cynnwys yn y cwricwlwm.
- Darparu cefnogaeth dechnolegol i alluogi mynediad at y cwricwlwm lle mae'r gost yn llai na £500.
- Ystyried anghenion disgyblion unigol cyn eu derbyn a chynllunio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill i ddiwallu'r anghenion yma, yn ôl yr angen
- Rhoi trefniadau priodol ar waith ar gyfer mynediad at drefniadau arholiadau arbennig.

## Blaenoriaeth 4: Gwella amgylchedd lleoliadau addysgol i gynyddu'r graddau y mae modd i blant a phobl ifainc ag anabledd fanteisio’n llawn ar wasanaethau a chyfleusterau a gaiff eu darparu gan y lleoliad

Mae gan ddarparwyr addysg ddyletswydd i wneud 'addasiadau rhesymol' er mwyn sicrhau nad yw plant a phobl ifainc ag anableddau yn cael eu gwahaniaethu (Deddf Cydraddoldeb 2010). Mae'r awdurdod lleol ac ysgolion wedi'u hymrwymo i wella amgylchedd ysgolion i gynyddu'r graddau y mae modd i ddisgyblion ag anabledd gael mynediad at addysg ochr yn ochr â’u cyfoedion.

Mae modd i hyn gynnwys, er enghraifft, creu mannau diogel, mannau tawel a gweithfannau unigol, yn ogystal â darparu amgylchedd addas i blant a phobl ifainc ag anabledd neu anghenion synhwyraidd.

Gallai gwelliannau i hygyrchedd gynnwys y canlynol:

- I blant a phobl ifainc ag anableddau corfforol: Rampiau, rheiliau llaw, lledu drysau, drysau electromagnetig, cyfleusterau toiledau ac ymolchi wedi'u haddasu, llwybrau gwacáu mewn argyfwng, mynediad i fannau awyr agored a meysydd cwricwlwm arbenigol.
- I blant a phobl ifainc byddar neu'r rheiny sydd â nam ar y golwg: Goleuadau y mae modd eu haddasu, llenni, arwynebau mewnol ac allanol, dolenni sain, dylunio acwstig da mewn ystafelloedd a systemau canfod ffordd.

Rhaid i bob adeilad ysgol newydd gydymffurfio â'r rheoliadau adeiladu presennol mewn perthynas â hygyrchedd, er efallai y bydd angen addasiadau pellach i ddiwallu anghenion plant a phobl ifainc penodol.

Mae'r cyfrifoldeb am ariannu mân addasiadau, gwaith hygyrchedd ac addasiadau rhesymol (gan gynnwys offer a chymhorthion) wedi’i fanylu yn y Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng yr Ysgol a'r Awdurdod Addysg Lleol. Lle mae’n debygol y bydd angen gwneud gwaith mawr, mae modd i ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol / darparwyr addysg gofrestredig gyflwyno cais achos busnes am gyllid ychwanegol yn rhan o’r rhaglen Cyfalaf Ysgolion ehangach.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud y canlynol:

- Darparu pecyn hunan-archwilio i ysgolion ei ddefnyddio.
- Sicrhau bod pob prosiect adeiladu newydd/estyniad sy’n cael ei gwblhau ar ysgolion yn cael ei ddylunio a'i adeiladu yn unol â chanllawiau/safonau'r Adran Addysg a Rheoliadau Adeiladu (Rhan M), o ran hygyrchedd.
- Adolygu archwiliadau hygyrchedd wedi'u cyflawni gan ysgolion yn barhaus, yna darparu cymorth herio, a chynnig cyngor addas ble mae angen.
- Cefnogi ysgolion trwy ddarparu mynediad at gyngor ar yr ymateb graddedig i anghenion.
- Asesu pa mor addas yw adeiladau'r ysgol yn rhan o gynllunio buddsoddiad cyfalaf strategol a Chynllunio Busnes y Gyfadran Addysg.

- Ystyried gwelliannau sy'n gwneud adeilad yn fwy hygyrch wrth ymgymryd â gwaith adnewyddu sy'n cael ei wneud drwy'r Rhaglen Gyfalaf a'r Rhaglen Ysgolion 21ain Ganrif.
- Darparu cyngor ac ymgynghoriad uniongyrchol i ysgolion am gynllunio ar gyfer gwelliannau i hygyrchedd yr adeilad.
- Archwilio cyfleusterau lles i sicrhau bod toiledau, ystafelloedd newid ac ystafelloedd hylendid hygyrch ar gael i'w defnyddio at ddibenion cefnogi disgyblion, staff ac ymwelwyr.
- Gweithio gydag ysgolion er mwyn sicrhau trefniadau pontio llyfn i blant a phobl ifainc sy'n dechrau'r ysgol am y tro cyntaf a'r rhai sy'n symud i ysgolion/colegau eraill.

Bydd yr ysgolion yn:

- Cynnal pecyn cymorth yr Archwiliad Hygyrchedd i lywio eu cynllun gweithredu hygyrchedd.
- Sicrhau bod addasiadau rhesymol yn cael eu gwneud fel bod modd i bobl ifainc ag ADY/anableddau gael mynediad at y cwricwlwm a'r safle ysgol ehangach – er enghraifft, dylai ysgolion geisio aildrefnu ystafelloedd dosbarth ac amserlenni ble bo modd os nad yw rhai ystafelloedd dosbarth yn hygyrch i ddisgyblion unigol. Bydd angen diwallu gofynion gweledol a chlywedol yn unol â chyngor arbenigol.
- Sicrhau bod yr amgylchedd yn hygyrch. Mae hyn yn cynnwys defnyddio gofod ffisegol i leihau sŵn a phethau sy'n tarfu ar sylw'r unigolyn, gan sicrhau bod gofod wedi'i oleuo'n briodol a darparu mannau tawel ar gyfer seibiant
- Defnyddio adnoddau addas i fodloni anghenion unigol plentyn/person ifanc. Mae modd i hyn gynnwys cymhorthion ategol, braille ac amserlenni gweledol
- Sicrhau bod cyfleusterau ar gyfer staff ddim yn rhoi gweithiwr anabl dan anfantais sylweddol o'i gymharu â'r rhai sydd ddim yn anabl. Mae angen gwneud addasiadau rhesymol yn y sefyllfaoedd yma.
- Wrth dderbyn disgyblion anabl, sicrhau bod yr holl waith cynllunio yn cael ei wneud ymhell ymlaen llaw. Dylai'r ysgolion ystyried yn ofalus anghenion disgyblion unigol a'r gwaith sydd angen ei wneud, a chyfathrebu â'r Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant a'r Uned Trafnidiaeth Integredig ynglŷn ag unrhyw newidiadau sydd eu hangen.
- Ceisio sicrhau bod y brif fynedfa, y man gweinyddu, y neuadd a'r toiledau i ymwelwyr yn hygyrch i ymwelwyr anabl, er enghraifft, ar gyfer defnyddwyr allanol a nosweithiau rhieni er mwyn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth bresennol o ran cydraddoldeb i bobl anabl.
- Adolygu eu gweithdrefnau gwacáu mewn argyfwng er mwyn ystyried anghenion disgyblion anabl neu ymwelwyr anabl. Mae cyngor ar weithdrefnau ar gael gan y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant.
- Sicrhau bod cyfarwyddyd ar yr ymatebion graddedig sy'n ymwneud ag addasiadau i'r amgylchedd ac adnoddau dysgu yn cael ei ddilyn.
- Sicrhau bod hyfforddiant ar gael i lywodraethwyr a staff ysgol i godi ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau.

Mae modd cael rhagor o gyngor a gwybodaeth ynglŷn â gwaith adeiladu a ffynonellau ariannu gan Isadran Eiddo'r Cyngor.

## Blaenoriaeth 5: Gwella’r modd y mae gwybodaeth, cyngor ac arweiniad yn cael eu rhoi i bob plentyn a pherson ifanc ag anabledd a’u teuluoedd.

Mae gan ysgolion a darparwyr addysg eraill gyfrifoldeb i ddarparu gwybodaeth hygyrch i rieni a disgyblion er mwyn sicrhau fod plant a phobl ifainc ag anabledd ddim o dan anfantais. Dylai'r wybodaeth a gaiff ei darparu fod yn glir a dealladwy. Lle bo'n briodol, yn enwedig ar gyfer plant a phobl ifainc neu rieni sy'n fyddar neu sydd â nam ar y golwg, efallai y bydd angen sicrhau bod gwybodaeth ar gael drwy ddulliau a fformatau amgen.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn gwneud y canlynol:

- Cadw at y canllawiau argraffu 'gweld yn glir' a sicrhau eu bod nhw ar gael i bawb.
- Rhoi cyngor i ysgolion ynghylch darparu gwybodaeth mewn gwahanol fformatau i bobl ifainc ag anghenion synhwyraidd.
- Sicrhau bod gwybodaeth am y gwasanaethau sydd ar gael i blant a phobl ifainc 0-25 oed ag anableddau a’u rhieni/gwarcheidwaid yn gyfredol ac yn hygyrch ar wefan y Cyngor a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol.
- Rhoi'r Cynllun Ymgysylltu â Theuluoedd ar waith bob blwyddyn i ymgysylltu â theuluoedd a phlant a phobl ifainc i rannu gwybodaeth a cheisio barn ar hygyrchedd a chydraddoldeb mewn lleoliadau addysg ledled yr awdurdod lleol.
- Darparu arweiniad i ysgolion wrth fodloni anghenion plant a phobl ifainc ag anabledd/ADY trwy'r canllaw Ymateb Graddedig.
- Cynnwys plant, pobl ifainc a rhieni/gwarcheidwaid yn y gwaith o ddatblygu ac adolygu strategaethau lleol.
- Darparu gwybodaeth hygyrch i blant a phobl ifainc ag ADY a/neu anableddau a’u rhieni/gwarcheidwaid; darparu dehonglwyr lle bo angen, gan gynnwys dehonglwyr iaith arwyddion, a gwybodaeth mewn fformatau eraill gan gynnwys braille a ffontiau mawr.
- Parhau i gomisiynu SNAP Cymru (partneriaeth rhieni annibynnol) i ddarparu gwybodaeth, cymorth a chyngor i blant a phobl ifainc ag anableddau a’u rhieni/gwarcheidwaid ar faterion sy’n ymwneud ag anabledd ac ADY, gan gynnwys eiriolaeth a datrys anghydfod.

Bydd yr ysgolion yn**:**

- Ysgrifennu Cynllun Hygyrchedd a'i gyhoeddi ar wefan yr ysgol.
- Gofyn am gefnogaeth a chyngor gan y Garfan Cymorth Dysgu ynghylch fformatau amgen i fodloni Anghenion Dysgu Ychwanegol dysgwyr synhwyraidd.
- Defnyddio proffil un dudalen i sicrhau bod staff yn effro i anghenion y bobl ifainc er mwyn darparu gwybodaeth yn y fformat cywir.
- Adolygu ac archwilio’r modd y mae’r ysgol yn darparu gwybodaeth i sicrhau ei bod ar gael i bawb.

- Darparu gwybodaeth hygyrch i blant a phobl ifainc ag anabledd/namau a'u rhieni/gwarcheidwaid, i fodloni eu hanghenion unigol, gan gynnwys ar ffurf braille a ffont mawr lle bo angen.
- Defnyddio ffurfiau cyfathrebu amgen gyda phlant a phobl ifainc unigol, lle bo angen.
- Darparu dehonglwyr, gan gynnwys iaith arwyddion, lle bo angen.
- Defnyddio canllaw Ymateb Graddedig y Gwasanaethau Cynhwysiant a Mynediad wrth fodloni anghenion plant a phobl ifainc ag anabledd.

**Cynllun Hygyrchedd Rhondda Cynon Taf**

Caiff y strategaeth yma ei chefnogi gan gynllun gweithredu blynyddol yr awdurdod lleol. Bydd y Gyfarwyddiaeth Addysg yn ymgynghori ag ystod o randdeiliaid, gan gynnwys ysgolion, plant a phobl ifainc a'u teuluoedd, a'r Grŵp Llywio Hygyrchedd i lywio datblygiad y cynllun gweithredu.

**Cynlluniau Hygyrchedd Ysgolion**

Nod y strategaeth yma a Chanllawiau a Pholisi Model Cynllun Hygyrchedd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Medi 2022) a Phecyn Cymorth Archwilio Hygyrchedd yw cefnogi ysgolion i gyflawni eu dyletswydd statudol i ysgrifennu a chyhoeddi eu cynllun hygyrchedd 3 blynedd. Mae modd dod o hyd i ddolenni i'r dogfennau yma yn Atodlen 2.

**Monitro ac adolygu**

Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdod lleol barhau i adolygu ei Strategaeth Hygyrchedd yn ystod y cyfnod y mae'n berthnasol iddo a'i diwygio yn ôl yr angen. Bydd diwygiadau i'r strategaeth a'r cynllun gweithredu blynyddol yn cael eu llywio gan y canlynol:

- Archwiliadau o gynlluniau hygyrchedd ysgolion.
- Ffrydiau gwaith Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cael eu rhoi ar waith.
- Adolygiad o archwiliadau hygyrchedd ysgolion wedi'u cwblhau.
- Archwiliadau o wariant ysgolion yn eu cyllidebau.
- Effaith ymyraethau / addasiadau ar gynnydd disgyblion.
- Adborth gan blant a phobl ifainc a'u teuluoedd.
- Adborth gan Bartneriaid Gwella.

## ATODIAD 1: Cyd-destun deddfwriaethol

Canllawiau Llywodraeth Cymru ar baratoi Strategaeth Hygyrchedd a Chynllun Hygyrchedd cynllunio-ar-gyfer-cynyddu-mynediad-i-ysgolion-i-ddisgyblion-ag-anableddau.pdf (llyw.cymru).

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol | LLYW.CYMRU

Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd 2018 Cefnogi dysgwyr ag anghenion gofal iechyd | LLYW.CYMRU

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/pdfs/ukpga_201

00015_en.pdf

Deddf Cydraddoldeb: Atodlen 10

http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/15/schedule/10

Deddf Cydraddoldeb 2010: Canllawiau ar faterion i'w hystyried wrth benderfynu ar gwestiynau sy'n ymwneud â'r diffiniad o anabledd (yn benodol atodlen 10).
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/atta chment_data/fil e/85010/disability-definition.pdf

Deddf Cydraddoldeb 2010 ac ysgolion: Cyngor adrannol i arweinwyr ysgolion, staff ysgolion, cyrff llywodraethu ac awdurdodau lleol
https://www.gov.uk/government/publications/equality-act-2010-advice-for-schools

## Atodiad 2

Canllawiau Cynlluniau Hygyrchec

accessibility-audit-tool-for-educational-set